YSGOL GYFUN GYMRAEG LLANGYNWYD
PRIFATHRO | HEADTEACHER: MR MEURIG JONES BA (Anrh), CPCP
LLANGYNWYD, MAESTEG, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF34 9RW
post@yggllangynwyd.pen-y-bont.cymru
www.yggllangynwyd.cymru
@YGGLLANGYNWYD
01656 815700
01656 815701

21 Mawrth 22

Annwyl ddysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid,

Yn sgil y cynnydd mewn achosion positif o COVID ymhlith dysgwyr a staff, bydd angen i ni fel ysgol symud i ddysgu'n rhithiol i flynyddoedd penodol ar ddiwrnodau penodol yr wythnos hon. O ganlyniad bydd angen y blynyddoedd isod **aros adref i weithio** ar y diwrnodau canlynol:

- **Dydd Mawrth 22.03.22: Bl.9 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol.**
- **Dydd Mercher 23.03.22: Bl.10 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol**
- **Dydd Iau 24.03.22: Bl.8 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol**
- **Dydd Gwener 25.03.22: Bl.7 i weithio o adref. Pob blwyddyn arall yn yr ysgol**

Bydd gwaith y diwrnod ar gael i ddysgwyr gwblhau ar Google Classroom ar gyfer CA3 a Microsoft TEAMS i Fl.10 yn ôl pynciau'r diwrnod hwnnw.

Os bydd nifer yr achosion yn cynyddu'n fwy, mae'n bosib bydd angen ychwanegu at y nifer o flynyddoedd bydd yn gweithio o adref. Os bydd rhaid gweithredu hwn, byddwn ni yn eich hysbysu cyn gynted â phosib, ond mae posibilrwydd bydd hwn yn digwydd ar fyr rybudd.

O ganlyniad i'r absenoldebau hyn, mae staff sy'n bresennol yn amsugno mwy o ddyletswyddau ac felly o bosib bydd hwn yn effeithio ar ein hargaeledd i ymateb i ymholiadau rhieni. Gofynnaf felly i chi fod yn amyneddgar a bydd rhywun yn cysylltu nôl â chi mor gyflym â phosib.

Diolch am eich cydweithrediad parhaus.
Cofion,

Meurig Jones

Prifathro